# Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 2 - Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mercher, 6 Gorffennaf 2011** |
| Amser: | **09:00 - 10:10** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_300000_06_07_2011&t=0

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Dafydd Elis-Thomas (Cadeirydd)**<br>**Mick Antoniw**<br>**Rebecca Evans**<br>**Russell George**<br>**Vaughan Gething**<br>**Llyr Huws Gruffydd**<br>**Julie James**<br>**William Powell**<br>**David Rees**<br>**Antoinette Sandbach** |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | **Virginia Hawkins (Clerc)**<br>**Catherine Hunt (Dirprwy Glerc)**<br>**Nia Seaton (Ymchwilydd)**<br>**Graham Winter (Ymchwilydd)** |

## 1. Ymddiheuriadau a chyflwyniadau

1.1 Ni chafwyd ymddiheuriadau na dirprwyon. Cyflwynodd yr aelodau eu hunain gan nodi meysydd y mae ganddynt ddiddordeb ynddynt.

## 2. Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd - Ffyrdd o weithio

2.1 Cyflwynodd y Clerc bapur 1 ar ffyrdd y pwyllgor o weithio.

2.2 Cytunodd y pwyllgor i gynnal trafodaeth bellach ar ei ffyrdd o weithio yn y cyfarfod nesaf.

2.3 Cytunodd y pwyllgor i wahodd Gregg Jones o swyddfa'r gwasanaeth ymchwil ym Mrwsel i'r cyfarfod nesaf i drafod cyd-destun Ewropeaidd y portffolio.

## 3. Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd – Trafod materion o fewn y portffolio a chynigion ar gyfer blaenraglen waith y Pwyllgor

3.1 Cyflwynodd y gwasanaeth ymchwil bapur 2 ar feysydd allweddol yng nghylch gwaith y pwyllgor.

3.2 Cytunodd y pwyllgor i gynnal ymchwiliad i ynni ac y byddai'r gwasanaeth ymchwil yn paratoi papur cwmpasu a chylch gorchwyl drafft erbyn y cyfarfod nesaf.

3.3 Cytunodd y pwyllgor i wahodd y Prif Weinidog a Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy i un o gyfarfodydd cyntaf y pwyllgor yn nhymor yr hydref.

3.4 Gofynnodd y pwyllgor i'r swyddogion baratoi gwybodaeth am faterion hysbys ar ffurf llinell amser ar gyfer y tymor.

3.5 Cytunodd y pwyllgor i gynnal cyfarfod ffurfiol ar ddydd Mawrth 19 Gorffennaf yn Sioe Frenhinol Cymru er mwyn cynnal sesiwn graffu gyda Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd.

## 4. Dyddiad y cyfarfod nesaf

4.1 Cynhelir cyfarfod nesaf y pwyllgor am 09.00 ar ddydd Iau 14 Gorffennaf.

## Trawsgrifiad

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.